

## Tasg 1

# Hir!

### Gwneud siocled

1. Dyma'r camau yn y broses gwneud siocled, ond maen nhw wedi eu cymysgu. Gosodwch nhw yn y drefn gywir.

		Y drefn gywir
1.	pecynnu'r siocled	
2.	casglu'r ffrwythau pan fyddan nhw'n aeddfed	
3.	cracio'r ffa coco i gael gwared â'r plisgyn	
4.	tynnu'r siocled o'r mowldiau a'i oeri	
5.	eplesu'r ffa coco a'u sychu	
6.	agor y ffrwythau a thynnu'r ffa coco allan	
7.	glanhau'r ffa coco a'u rhostio	
8.	creu pâst o'r darnau mân drwy eu malu ac ychwanegu siwgr	
9.	gwneud y pâst yn llyfn	
10.	malu'r ffa coco yn ddarnau mân	
11.	cludo'r ffa coco i ffatri	
12.	rhoi'r siocled mewn mowldiau	

2. Ydych chi'n meddwl bod y broses yn un beryglus? Rhowch resymau dros eich ateb.